



ADRODDIAD GWRTHWYNEBIAD

Sefydlu ysgol pob oed (4-19) a darpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion gydag anghenion niwroddatblygiadol a dysgu cymhleth

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	3
2.	Dosbarthu yr Adroddiad Ymgynghori	4
3.	Nodyn atgoffa am ein cynnig.....	5
4.	Cefndir i'r Trefniadau Ymgynghori.....	5
4.1	Y cyfnod ymgynghori	5
4.2	Yr Adroddiad Ymgynghori.....	6
5.	Cyfnod Gwrthwynebiad Statudol	7
5.1	Methodoleg	7
5.2	Gwrthwynebiadau Statudol	7
	Atodiad 1 - Rhestr Ymgynghoreion i dderbyn yr Adroddiad Gwrthwynebiad.....	11
	Atodiad 2 - Hysbysiad Statudol.....	12

1. Cyflwyniad

Mae'n ddyletswydd statudol ar Gyngor Sir Fynwy i sicrhau lleoedd ysgol digonol ac addas ar gyfer plant o fewn ei Sir, ac wrth wneud hynny i sicrhau y caiff adnoddau a chyfleusterau eu defnyddio'n effeithiol i gyflenwi'r cyfleoedd addysg y mae ein plant yn eu haeddu.

Mae'n gyfrifoldeb gan y Cyngor dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2018 i ymgynghori gyda rhanddeiliaid perthnasol wrth ystyried unrhyw gynigion sylweddol ar gyfer ad-drefnu ysgolion.

Cymerodd y Cyngor ran mewn proses ymgynghori statudol yn ymwneud â sefydlu ysgol pob oed (4-19) a darpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion gydag anghenion niwroddatblygiadol a dysgu cymhleth yn y Fenni.

Diben cynnal yr ymgynghoriad statudol oedd gofyn am sylwadau ein cymuned, rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid.

Paratowyd adroddiad ymgynghori ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori statudol i hysbysu partiön a chanddynt fuddiant am ganlyniad yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ac i gynnwys ymateb y Cyngor i sylwadau a phryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad hwn.

Cafodd adroddiad yr Ymgynghoriad ei ystyried gan Gabinet y Cyngor ar 6 Hydref 2021 a gytunodd i symud ymlaen gyda champau nesaf y broses statudol drwy gyhoeddi Hysbysiadau Statudol.

Mae'r Adroddiad Gwrthwynebiad hwn yn awr yn cynrychioli cyfrifoldebau'r Cyngor yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2018 i baratoi adroddiad sy'n crynhoi unrhyw wrthwynebiadau statudol a dderbyniwyd ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau hyn.

2. Dosbarthu yr Adroddiad Ymgynghori

Cyhoeddwyd yr adroddiad ymgynghori ar wefan Cyngor Sir Fynwy
www.monmouthshire.gov.uk/schoolreorganisation.

Cafodd yr ymgynghoreion a phartïon a chanddynt fuddiant a restrir islaw hefyd eu hysbysu'n uniongyrchol am gyhoeddi adroddiad yr ymgynghoriad.

- Rhieni, gwarcheidwaid a gofalwyr holl ddisgyblion yr ysgolion y mae'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt
- Pob ymgynghorai yn ymateb i'r cynigion yn ystod y cyfnod ymgynghori, a ofynnodd am hysbysiad o gyhoeddiad adroddiad yr ymgynghoriad
- Penaethiaid, staff a llywodraethwyr ysgolion y mae disgyblion yn trosglwyddo ohonynt
- Disgyblion/Cynghorau Disgyblion ysgolion y mae'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt
- Penaethiaid yr holl ysgolion yn ardal Cyngor Sir Fynwy
- Holl Aelodau Cyngor Sir Fynwy
- Gweinidogion Cymru
- Holl Gynghorau Tref a Chymuned Cyngor Sir Fynwy
- Holl Aelodau Senedd Cymru sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgol
- Holl Aelodau Senedd San Steffan yn cynrychioli ardal Cyngor Sir Fynwy
- Cyfarwyddwyr Addysg pob awdurdod lleol sy'n cydffinio
- Pennaeth Coleg Gwent
- MonLife
- GAVO
- Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgol Sir Fynwy
- Cymdeithasau Addysgu
- Cymdeithasau Staff Cymorth
- Swyddog Polisi (Cydraddoldeb a'r Gymraeg)
- Llywodraeth Cymru
- Estyn
- Ymddiriedolaeth Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru, Cyfarwyddwr Addysg
- Ymddiriedolaeth Esgobaethol Catholig, Cyfarwyddwr Addysg
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg De Ddwyrain Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent
- RhAG
- Mudiad Meithrin

Cafodd yr ymgynghoreion uchod eu hysbysu'n uniongyrchol am y penderfyniad i symud ymlaen gyda'r cynigion drwy gyhoeddi Hysbysiadau Statudol, a'u hysbysu sut y gallent gyflwyno Gwrthwynebiadau Statudol yn erbyn y cynigion.

3. Nodyn atgoffa am ein cynnig

Ymgynghorodd yr Awdurdod Lleol ar gynigion i sefydlu ysgol pob oed gyda darpariaeth ar gyfer plant gydag anghenion niwroddatblygiadol cymhleth ar safle Ysgol Brenin Harri VIII yn weithredol o 1 Medi 2023.

I hwyluso sefydlu'r ysgol arfaethedig pob oed yn y Fenni, bydd y Cyngor yn peidio cynnal Ysgol Gynradd Deri View ac Ysgol Gyfun Brenin Harri VIII yn weithredol o 1 Medi 2023.

Caiff adeilad yr ysgol newydd arfaethedig ei gyd-gyllido gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Fynwy drwy raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a rhaglen Adeiladu Colegau.

4. Cefndir i'r Trefniadau Ymgynghori

4.1 Y cyfnod ymgynghori

Ar 14 Ebrill 2021 cymeradwyodd Cabinet y Cyngor y cynigion i ddechrau ymgynghoriad statudol gan felly alluogi'r Cyngor i gysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol ar sefydlu ysgol pob oed, gyda darpariaeth arbenigol, yng ngogledd y sir ar safle Ysgol Brenin Harri VIII.

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2018, fe wnaeth y Cyngor baratoi dogfen ymgynghori ar gyhoeddwyd ar 26 Ebrill 2021, oedd hefyd yn cynrychioli dechrau'r cyfnod ymgynghori statudol. Parhaodd y cyfnod ymgynghori ffurfiol am fwy na 8 wythnos (yn cynnwys 20 diwrnod ysgol), gan ddod i ben ar 25 Mehefin 2021.

Dosbarthwyd y ddogfen ymgynghori neu anfonwyd dolenni at bob ymgynghorai statudol a chyhoeddwyd copi ar wefan y Cyngor yn www.monmouthshire.gov.uk/schoolreorganisation.

Cododd y Cyngor ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad drwy anfon gohebiaeth uniongyrchol at yr holl ymgynghoreion statudol, yn cynnwys rhieni, staff a chyrrff llywodraethu yr ysgol yr effeithir arnynt. Sefydlwyd ymgyrch farchnata hefyd, yn defnyddio rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor drwy gydol y cyfnod ymgynghori i hysbysebu'r cynigion a sut y gallai ymgynghoreion gyfrannu at y broses hon.

Roedd y Cyngor yn awyddus i ymgysylltu gyda phawb oedd â diddordeb drwy gydol yr ymgynghoriad. Er pandemig Coronafeirws a'r cyfyngiadau cenedlaethol cysylltiedig, gallodd y Cyngor drefnu amgylchedd diogel i ymgysylltu gydag ymgynghoreion statudol a phartion a chanddynt fuddiant.

Cafodd ymgynghoreion eu hysbysu am y cyfleoedd dilynol i ymateb yn ffurfiol i gynigion yr ymgynghoriad.

- Llenwi'r holiadur ymgynghori ar-lein drwy www.monmouthshire.gov.uk/statutoryconsultation
- Anfon e-bost at strategicroview@monmouthshire.gov.uk.

4.2 Yr Adroddiad Ymgynghori

Mae'n gyfrifoldeb ar y Cyngor yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i baratoi adroddiad gyda'r nod o hysbysu partion â diddordeb am ganlyniad cyfnod ymgynghori y broses drwy:

- Grynhoi pob un o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion
- Ymateb iddynt drwy eglurhad, diwygio'r cynnig neu wrthod y pryderon gyda rhesymau i gefnogi
- Gosod barn Estyn (fel y'i darparwyd yn ei adroddiad i'r ymgynghoriad am rinweddau cyffredinol y cynnig.

Cyhoeddwyd Adroddiad Ymgynghori y Cyngor yn ymwneud â'r cynigion hyn ar 5 Hydref 2021 a chafodd yr holl ymgynghoreion statudol a phartion â diddordeb eu hysbysu'n uniongyrchol am ei gyhoeddi. Cafodd yr adroddiad ymgynghori hefyd ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor yn www.monmouthshire.gov.uk/schoolreorganisation.

Ystyriodd Cabinet y Cyngor yr Adroddiad Ymgynghori ar 6 Hydref 2021 a chytuno symud ymlaen gyda chyfnodau nesaf y broses statudol drwy gyhoeddi'r Hysbysiadau Statudol yn cynnig sefydlu ysgol pob oed (3-19) ar safle Ysgol Gyfun Brenin Harri VII yn weithredol o fis Medi 2023. Fel canlyniad i'r cynigion hyn, roedd yr Hysbysiadau Statudol hefyd yn cynnig y byddai'r Cyngor yn peidio cynnal Ysgol Gynradd Deri View ac Ysgol Gyfun Brenin Harri VIII yn weithredol o 31 Awst 2023.

5. Cyfnod Gwrthwynebiad Statudol

5.1 Methodoleg

Ar 19 Hydref 2021 dechreuodd y Cyngor ar y cyfnod Gwrthwynebiad Statudol drwy gyhoeddi'r Hysbysiadau Statudol sydd yn atodiad 1 yr adroddiad hwn.

Cyhoeddwyd yr Hysbysiadau Statudol drwy'r dulliau dilynol:

- Ar wefan y Cyngor yn www.monmouthshire.gov.uk/schoolreorganisation
- Yn neu'n agos at brif fynedfa Ysgol Gyfun Deri View ac Ysgol Gyfun Brenin Harri VIII
- Dosbarthu'n electronig i'r holl ymgynghoreion statudol, yn cynnwys disgyblion, rhieni/gofalwyr, Llywodraethwyr a staff pob ysgol yng nghlwstwr y Fenni
- Drwy ddsbarthiad electronig i bob ymgynghorai a ymatebodd i gam ymgynghori y broses statudol hon ac yn gofyn am hysbysiad o'r fath

Gofynnwyd i ymgynghoreion a phartïon a chanddynt fuddiant, pe dymunent gyflwyno gwrthwynebiad statudol yn erbyn y cynigion i sefydlu ysgol pob oed (3-19) ac yn ei dro beidio cynnal Ysgol Gynradd Deri View ac Ysgol Gyfun Brenin Harri VIII bod yn rhaid iddynt wneud hynny mewn ysgrifen neu drwy e-bost o fewn y cyfnod Gwrthwynebiad Statudol 28 diwrnod, a ddaeth i ben ar 17 Tachwedd 2021.

Atgoffwyd ymgynghoreion a phartïon â diddordeb na fyddai pryderon a godwyd yn ystod cyfnod ymgynghori'r broses hon yn cael eu cario'n awtomatig i'r Cyfnod Gwrthwynebu a'u hystyried fel Gwrthwynebiad Statudol os na chânt eu hysbysu i wneud hynny o fewn y Cyfnod Gwrthwynebiad Statudol.

5.2 Gwrthwynebiadau Statudol

Agorodd y cyfnod Gwrthwynebu Statudol ddydd Mawrth 19 Hydref 2021 am gyfnod o 28 diwrnod, yn dod i ben ddydd Mercher 17 Tachwedd 2021. Derbyniwyd un gwrthwynebiad statudol yn ystod y cyfnod hwn. Mae manylion y gwrthwynebiad statudol hwn ynghyd ag ymateb y Cyngor ar gael yn y tabl isod:

RHIF GWRTHWYNEBIAD	PRYDER GWRTHWYNEBIAD
1	<p>Codais bryderon yn ystod y broses ymgynghori â'r cyhoedd am gyfiawnhad Cyngor Sir Fynwy am faint yr ysgol pob oed gan fod amcanestyniadau Cyngor Sir Fynwy ar gyfer twf disgyblion yn y dyfodol, yn seiliedig ar gynnydd tai a swyddi, yn sylweddol wahanol i amcanestyniadau Llywodraeth Cymru, sy'n llawer is na rhai Cyngor Sir Fynwy.</p> <p>Nid oeddwn yn teimlo i'r pryderon a godais gael eu trin yn ddigonol yn y cyfnod ymgynghori na'r adroddiad cau lan a gyhoeddwyd.</p> <p>Ers hynny mae cynllunwyr Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 'rhybudd cynllunio' i Gyngor Sir Fynwy am y ffigurau, sydd yn fras yn gyfystyr â'i gwneud yn ofynnol i Gyngor Sir Fynwy ddiwygio ei ffigur ar y cartrefi newydd a ddisgwylir yn ardal y Fenni dros y 10 mlynedd nesaf drwy ostyngiad o tua 785 cartref.</p> <p>Oherwydd y datblygiad hwn rwy'n annog y dylai'r ffigurau a'r penderfyniadau a lywiodd faint yr ysgol newydd gael eu hailystyried.</p> <p>Rwyf unwaith eto yn gwrthwynebu i ysgol pob oed y Fenni oherwydd fod ei maint yn anaddas i'r galw a ragwelir ac yn annog i'r mater gael ei ailystyried a'i deilwra i'r amcanestyniadau twf y mae cynllunwyr Llywodraeth Cymru eu hangen.</p>

YMATEB YR AWDURDOD LLEOL

Aseswyd fod gan Ysgol Gyfun Brenin Harri VII yn ei ffurf bresennol gapasiti digonol ar gyfer 1290 o fyfyrwyr, sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer myfyrwyr ôl 16. Mae gan Ysgol Gynradd Deri View gapasiti ar gyfer 330 o fyfyrwyr o oedran Derbyn hyd at flwyddyn 6. Cafodd yr asesiadau capasiti hyn eu cwblhau yn unol â gofynion canllawiau "Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru" Llywodraeth Cymru.

Capasiti elfennau uwchradd yr ysgol pob oed a gynigir yw 1200 (7-11) ynghyd â chweched dosbarth gyda 200 lle, gan roi cyfanswm o 1400 lle. Os cytunir ar y cynigion, bydd yr ysgol pob oed yn cynnig 110 lle ychwanegol i ddysgwyr oedran uwchradd. Capasiti elfennau cynradd yr ysgol pob oed a gynigir yw 420 lle ar gyfer myfyrwyr ym mlynnyddoedd Derbyn i flwyddyn 6. Os cytunir ar y

cynigion hyn, bydd 90 o leoedd ychwanegol mewn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ar gael i'r Dref.

Cafodd maint yr ysgol newydd a gynigir ei gyfrif yn defnyddio amcanestyniadau disgyblion a gaiff eu cyfrif a'u hadolygu'n flynyddol. Caiff yr amcanestyniadau eu paratoi yn defnyddio ystod o ddata sydd ar gael i ni, yn cynnwys data a gyflenwyd o iechyd (genedigaethau newydd), cynllunio (datblygiadau tai) a thueddiadau data yn deillio o'n dadansoddiad data mewnol.

Yn nhermau tai, cafodd yr amcanestyniadau a gyhoeddwyd o fewn yr ymgynghoriad statudol fel rhan o'r cynigion hyn eu modelu'n llwyr ar y datblygiadau hysbys o fewn yr ardal lle cafodd ymrwymadau ar ffurf caniatâd cynllunio eisoes eu rhoi gan y Cyngor. Er ein bod yn hollol ymwybodol o gynigion y Cyngor a amlinellir o fewn y Cynllun Datblygu Lleol, nid oedd y cynigion hynny wedi eu cymeradwyo.

Adeg paratoi'r amcanestyniadau a gyhoeddwyd o fewn y ddogfen ymgynghori statudol (Medi 2020), dywedodd ein cydweithwyr yn yr adran Cynllunio wrthym, o'n hymrwymadau tai presennol, bod 387 annedd ar ôl i gael eu hadeiladu yn defnyddio'r cyfraddau adeiladau disgwylidig o 2020/21 ymlaen. Cafodd y 387 annedd hyn eu cynnwys yn yr amcanestyniadau a gyhoeddwyd.

Mae'r ddogfen ymgynghori statudol yn cadarnhau y gallai'r niferoedd Cynradd ar gofrestr ar draws ardal y dref o'r clwstwr (yn cynnwys Ysgolion Cynradd Llan-ffwyst a Gilwern), gyrraedd:

	Medi 2022	Medi 2023	Medi 2024	Medi 2025
Cyfanswm	1566	1543	1540	1541

Byddai modelu'r rhifau uchod o gymharu â'r capasiti newydd arfaethedig ar draws y Dref yn gweld 349 lle gwag neu (18.4%) erbyn mis Medi 2025. Fodd bynnag, nid yw'r amcanestyniad yma yn cynnwys cynigion i gynyddu ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y Fenni gan 103 lle, o 317 i 420 i'n galluogi i ddarparu ar gyfer unrhyw gynnydd yn y dyfodol yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae'r ddogfen ymgynghori statudol yn cadarnhau y gallai niferoedd Uwchradd ar y gofrestr ar gyfer yr ysgol pob oed arfaethedig gyrraedd:

Ysgol	Medi 2023	Medi 2024	Medi 2025	Medi 2026	Medi 2027
Ysgol newydd pob ysgol (uwchradd)	1128	1168	1193	1199	1176

Byddwch yn nodi o'r uchod y rhagwelwn y bydd ein brig ym mis Medi 2026 gydag amcanestyniad o 1199 myfyriwr ar y gofrestr. O gymharu â'r capasiti arfaethedig ar 1400, mae hyn yn gadael 201 lle gwag (14.4%). Mae'r cynnig 1400 wedi'i fodelu ar 8 dosbarth mynediad. Pe byddai model mynediad 7 dosbarth, yr opsiwn a ffafriwn, byddai capasiti'r ysgol yn gostwng i 1250. Gan ddefnyddio'r amcanestyniad uchod, byddai'r opsiwn hyn yn ein gadael gyda 51 lle gwag (4%) a ystyriwn yn annigonol.

Mae'r Cyngor yn fodlon gyda maint yr ysgol pob oed newydd arfaethedig ac yn ystyried bod cynigion yn cynnig capasiti digonol (ac nid gormodol) tra hefyd yn cynnig datrysiad cynaliadwy pe dyrennir unrhyw ddatblygiadau newydd a'u cytuno o fewn clwstwr y Fenni.

Atodiad 1 - Rhestr Ymgynghoreion i dderbyn yr Adroddiad Gwrthwynebiad

- Rhieni, gwarcheidwaid a gofalwyr holl ddisgyblion y mae'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt
- Pob ymgynghorai sy'n ymateb i'r cynigion yn ystod y cyfnod ymgynghori, yn gofyn am hysbysiad o gyhoeddi'r adroddiad ymgynghori
- Pennaeth, staff a llywodraethwyr ysgolion y mae disgyblion yn trosglwyddo ohonynt
- Disgyblion/Cynghorau disgyblion ysgolion y mae'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt
- Penaethiaid pob ysgol yn ardal Cyngor Sir Fynwy
- Holl Aelodau Cyngor Sir Fynwy
- Gweinidogion Cymru
- Holl Gynghorau Tref a Chymuned Cyngor Sir Fynwy
- Holl Aelodau Senedd Cymru sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgol
- Holl Aelodau Senedd San Steffan sy'n cynrychioli ardal Cyngor Sir Fynwy
- Cyfarwyddwyr Addysg pob awdurdod lleol sy'n cydffinio
- Pennaeth Coleg Gwent
- Mon Life
- GAVO
- Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgol Sir Fynwy
- Cymdeithasau Addysgu
- Cymdeithasau Staff Cymorth
- Swyddog Polisi (Cydraddoldeb a'r Gymraeg)
- Llywodraeth Cymru
- Estyn
- Ymddiriedolaeth Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru, Cyfarwyddwr Addysg
- Ymddiriedolaeth Esgobaethol Catholig, Cyfarwyddwr Addysg
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg De Ddwyrain Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent
- RhAG
- Mudiad Meithrin

**CYNGOR SIR FYNWY
NEUADD Y SIR, Y RHADYR, BRYNBUGA, SIR FYNWY NP15 1GA**

DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

HYSBYSIR DRWY HYN yn unol ag Adran 41 a 43 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 bod Cyngor Sir Fynwy, ar ôl ymgynghori gyda'r personau hynny fel oedd angen, yn cynnig fel y nodir islaw:

1. Mae Cyngor Sir Fynwy yn cynnig sefydlu ysgol cyfrwng Saesneg gymysg pob oed newydd i'w chynnal gan Gyngor Sir Fynwy ar safle presennol Ysgol Gyfun Brenin Harri VIII yn Hen Heol Henffordd, Y Fenni, NP7 6EP, ar gyfer plant 3-19 oed. Bydd gan yr ysgol hefyd ddarpariaeth arbenigol ar gyfer plant gydag anghenion niwroddatblygiadol a dysgu cymhleth. Cynigir gweithredu'r cynnig ar **1 Medi 2023**.

Fel canlyniad i'r cynigion a amlinellir uchod:

2. Mae Cyngor Sir Fynwy yn cynnig cau **YSGOL GYFUN BRENIN HARRI VIII, HEN HEOL HENFFORDD, Y FENNI, NP& 6EP**. Caiff yr ysgol ei chynnal gan Gyngor Sir Fynwy ar hyn o bryd. Cynigir gweithredu'r cynigion hyn ar 31 Awst 2023.
3. Mae Cyngor Sir Fynwy yn cynnig cau **YSGOL GYNRADD DERI VIEW, LÔN LLWYNU, Y FENNI, NP7 6AR**. Caiff yr ysgol ei chynnal ar hyn o bryd gan Gyngor Sir Fynwy. Cynigir gweithredu'r cynigion hyn ar 31 Awst 2023.

Caiff disgyblion sy'n mynychu'r ddwy ysgol a gaiff eu cau eu trosglwyddo'n awtomatig i'r ysgol pob oed newydd arfaethedig os nad yw rhieni/gofalwyr yn gofyn fel arall.

Cynhaliodd Cyngor Sir Fynwy gyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Cyhoeddwyd adroddiad ymgynghori yn cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigydd ac ymateb llawn Estyn i'r holl ymgynghoreion statudol ac mae ar gael drwy <https://www.monmouthshire.gov.uk/schoolreorganisation/>

Bydd gan yr ysgol newydd pob oed gapasiti disgyblion oedran cynradd (4-11) ar gyfer 420 o blant, gyda rhif derbyn grŵp blwyddyn unigol o 60. Bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn darparu hyd at 1200 lle ar gyfer plant oedran uwchradd (11-16) ym mlynnyddoedd 7-11, gyda rhif derbyn grŵp blwyddyn unigol o hyd at 240. Bydd 200 o leoedd eraill ar gael ar gyfer myfyrwyr chweched dosbarth (16-19).

Bydd yr ysgol newydd pob oed yn cynnig darpariaeth cyn ysgol drwy sefydlu darpariaeth Feithrin i'w chynnal gan Gyngor Sir Fynwy fydd yn darparu 30 o leoedd cyfwerth ag amser llawn.

Bydd yr ysgol newydd pob oed yn cynnig darpariaeth arbenigol ar gyfer plant gydag anghenion niwroddatblygiadol a dysgu cymhleth. Capasiti'r ddarpariaeth hon fydd 71 (16 Cynradd a 55 Uwchradd).

Cyngor Sir Fynwy fydd yr Awdurdod Derbyn ar gyfer yr ysgol pob oed newydd. Caiff ceisiadau am leoedd yn yr ysgol newydd eu rheoli a'u penderfynu yn unol â'r Polisi Derbyn i Ysgolion a gytunwyd gan y Cyngor.

Bwriad y Cyngor yw y darperir cludiant yn rhad ac am ddim ar gyfer disgyblion i'w hysgol newydd yn unol â pholisi'r Cyngor bryd hynny. Y polisi cyfredol yw bod disgyblion yn gymwys am gludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol os ydynt yn cyflawni'r meini prawf dilynol:

- a) Eu bod yn mynychu eu hysgol agosaf neu ddalgylch a
- b) Eu bod yn byw fwy na milltir a hanner o'r ysgol ar gyfer oedran cynradd neu
- c) Eu bod yn byw fwy na dwy filltir o'r ysgol ar gyfer oedran uwchradd

O fewn cyfnod o 28 o ddyddiad cyhoeddi'r cynnig, hynny yw erbyn **17 Tachwedd 2021**, gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion a amlinellir yn yr hysbysiad hwn.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at Matthew Jones, Rheolwr Uned Mynediad, Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA neu drwy e-bost at strategicreview@monmouthshire.gov.uk

Llofnod



Dyddiad: **19 Hydref 2021**

Paul Matthews
Prif Weithredwr
Ar ran Cyngor Sir Fynwy

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn esboniadol hwn yn ffurfio rhan o'r hysbysiad ond fe'i cynigir fel esboniad)

Ysgol Gyfun Brenin Harri VIII

Mae Ysgol Gyfun Brenin Harri VIII yn ysgol uwchradd gyd-addysgol 11-18 oed cyfrwng Saesneg yng ngogledd y Sir yn y Fenni. Mae gan yr Ysgol gapasiti ar hyn o bryd ar gyfer 1290 lle gyda chweched dosbarth 220 lle. Roedd Nifer Derbyd o 215 a'r nifer ar y gofrestr ym mis Medi 2020 oedd 1041.

Mae adeiladau Ysgol Gyfun Brenin Harri VIII mewn cyflwr gwael ac mewn Arolwg Cyflwr a gynhaliwyd yn 2020 cafodd adeiladau'r ysgol eu rhoi yng Nghyflwr Categori D gydag ôl-groniad o waith cynnal a chadw yr amcangyfrifir ei fod tua £2.5m.

Ysgol Gynradd Deri View

Mae Ysgol Gynradd Deri View yn Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg yng ngogledd y Sir a 0.5 milltir o Ysgol Brenin Harri VIII.

Mae gan yr Ysgol gapasiti o 330 lle ar hyn o bryd ynghyd â meithrinfa, Nifer Derbyn 47 a'r nifer ar y gofrestr ym Medi 2020 yw 276.

Mae Ysgol Deri View yn adeilad cymharol fodern ac yn dilyn Arolwg Cyflwr a gynhaliwyd yn 2020, cafodd yr adeilad ysgol ei roi yng Nghategori Categori C+ ac amcangyfrifir fod yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw tua £110k.